



Adroddiad Cyfarfod 14:12:22 Swper Nadolig

Braf oedd cael dod at ein gilydd i ddathlu'r Nadolig yn y Newborough Arms yn Bontnewydd. Cafwyd noson hwyllog, ac ar ôl ein bwyd fe gawsom ein diddanu gan y consiriwr Richard Owen. Doedd gan yr un ohonom syniad sut oedd o yn gwneud ei driciau! Ond 'roedd yna ddigon o chwerthin.

Bydd ein cyfarfod Mis Ionawr yn cael ei gynnal dros Zoom - felly fe fydd pawb yn cael ymuno o gynhesrwydd eu cartrefi.

Cyhoeddiadau 'r Cyfarfod

1. Cwis Hwyl

Llongyfarchiadau i'r pedair a fu yn ein cynrychioli yn y Cwis Hwyl - er na fuont yn fuddugol – fe fu iddynt gael canlyniad clodwiw. Llongyfarchiadau i dîm Penrhosgarnedd a fu'n fuddigol yn Genedlaethol yn ogystal ac yn ein Rhanbarth.

2. Cyfarchion Nadolig y Llywydd

Cyfarchion Nadolig y Llywydd Cenedlaethol 2022

Mae'r Nadolig yn brysur agosáu unwaith eto a'r bocsys 'Quality Street' a'r Celebrations ar y silffoedd ers dechrau Hydref! (Mae yna siocledi arall ar y farchnad wrth gwrs!!) Gymaint ag yr wyf yn mwynhau'r Nadolig ac yn edrych ymlaen i gael cwmni teulu a ffrindiau dros gyfnod yr Wyl, dwi ddim yn hoffi'r ffordd mae'r gwerthwyr mawr yma yn rhoi pwysau ar bawb i brynu a phrynu ac i fod 'yn barod' am y Nadolig bron iawn cyn ein bod i mewn i fis Rhagfyr!

Eleni felly, fy mwriad a'm neges yw i beidio a gadael i neb arall, nag i chithau chwaith roi'r pwysau diangen yma ar eich hunain, a gwnewch fel ag y gallwch a mwynhewch y cyfnod.

Anwybyddwch hysbysebion crand y siopau mawr a chefnogwch y busnesau bach lleol, byddan nhw yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn llawer mwy.

Ond yn bennaf, gwnewch y pethau bychain sy'n costio dim, treuliwch ychydig o amser gyda chymdogion sydd ar eu pennau eu hunain, rhwch alwad ffôn i ffrind neu berthynas pell, neu agos neu gwahoddwch rywun draw i rannu eich cinio neu swper. Dwi'n siŵr y bydd pawb yn ei werthfawrogi a byddwch chithau yn cael budd a phleser ohono hefyd.

Bydd hi'n Nadolig anodd i lawer am amryw o resymau, ac os nad yn Llawen, gobeithio y caiff pob yr un ohonoch Nadolig Dedwydd ag Heddychlon.

Pob hwyl i chi gyd a chofion cynnes,



Jill



3. Cynllunio Cerdyn Nadolig – Nadolig 2023



4. Taith i Sempringham – Ffurflen gan Gwenan

Merched y Wawr a'r Clybiau Gwawr Taith i Sempringham

23 – 25 Mehefin 2023

Pris - £274 neu £314

AELODAU'R GOGLEDD

- Mae'r daith wedi cael ei threfnu ar gyfer holl aelodau Merched y Wawr a Chlybiau Gwawr i fynd i ymweld â chofeb Gwenllian ger Sempringham yn Swydd Lincoln. Yn ystod 2022 mae Merched y Wawr wedi cymryd cyfrifoldeb dros Cofeb Cymdeithas Gwenllian.
- Teithio mewn bws moethus gan gwmni Elfyn Thomas ac aros mewn Gwesty Hilton 4 seren yng Nghaerlŷr. Ystafelloedd 'Twin' a Sengl ar gael (Sengl yn £40 ychwanegol). Mae'r pris yn cynnwys Brecwast a Swper. Pwll nofio yn y gwesty.
- Mae'r pris yn cynnwys fod yr actor Llion Williams yn dod efo ni fel tywysydd. Bydd ef yn rhoi adloniant i ni yn y gwesty ar un o'r nosweithiau.
- Pawb i drefnu ei yswiriant ei hun.

- Bydd y cwmni bws yn dewis lleoliadau ar hyd yr A55 i bigo aelodau i fyny ar y ffordd bore dydd

Gwener. (Ni fydd yn bosibl pigo i fyny mewn manau eraill)

5. **Cinio'r Llywydd**

CINIO'R LLYWYDD CENEDLAETHOL JILL LEWIS - Yng Ngwesty'r Quay, Deganwy Dydd Sadwrn, 18 o Fawrth, 2023 Cyrraedd o 11.00 ymlaen, gogyfer â chinio am 12.30 o'r gloch .

Os am fynd rhowch eich enwau i Gwenan sydd hefyd efo'r fwydlen am £25 y pen

6. **Hysbysebu yn y Wawr**

Annwyl Gangen/Clwb - Carwn ofyn a fydddech yn medru awgrymu cwmni/busnes/elusen fyddai d'ddiddordeb mewn rhoi hysbyseb yng nghylchgrawn Y Wawr? Rydym yn argraffu 6,000 o gopiâu o'r cylchgrawn 4 gwaith y flwyddyn ac fe'u dosberthir i bob aelod ledled Cymru a'r siopau sy'n archebu trwy'r Cyngor Llyfrau.

Mae posib iddynt ddylunio hysbyseb eu hunain mewn lliw neu medrwn eu cynorthwyo drwy Ddylunydd y cylchgrawn sef Elgan Davies.

7. **Cylchgrawn Y Wawr**

Rydym yn ddiolchgar iawn i Angharad Rhys am ddod yn Olygydd i Gylchgrawn y Wawr ac yn ddiolchgar i Elin Angharad am barhau am y ddau rifyn nesaf fel is-olygydd. Gofynnwn yn garedig i chi gysylltu os oes gennych enw posibl i ddod yn is-olygydd flwyddyn nesaf.

8. **Eisteddfod Llyn ac Eifionydd (cyfraniad Bethel)**

- Bore coffi Rhafyr 17 a Gwîb Nadolig yn y Neuadd Goffa am 10:30 Y.b. gwerthfawrogi cyfraniad at stondin gacenu a raffyl
- Noson ganu Plygain a Dathliad y Nadolig sydd yn cael ei drefnu fel rhan o apêl yr ardal at Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd . Nos fercher 21ain am 6 yh yn Eglwys Crist Llanddinorwig Deiniolen

*Plygain a dathliad y
Nadolig*

**EGLWYS CRIST LLANDINORWIG
DEINIOLEN**

**YNG NGHWMNI
GWILYM BOWEN RHYS
JOHN EIFION A'R TEULU
AC ERAILL**

TOCYNNAU £5 TICKETS

6.00 YH / PM

NOS FERCHER 21/12/22

TOCYNNAU:

**APÊL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLŷN AC
EIFIONYDD 2023 - ARDAL LLANDDEINIOLEN**